

Dr Andrew Goodall  
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ

11 Hydref 2017

### Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

Annwyl Dr Goodall,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 10 Gorffennaf 2017 i drafod Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn bwnc pwysig i graffu arno o ystyried bod pedwar o'r saith Bwrdd Iechyd Prifysgol mewn dyled ar ddiwedd y cyfnod tair blynedd cyntaf ac roedd rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'u cyfrifon. Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn ysgrifennu atoch i roi'n sylwadau. Rwyf wedi anfon copi at Gadeirydd Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon hefyd gan y bydd y sylwadau'n berthnasol i'r gwaith craffu sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â'r gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y byrddau Iechyd wedi dechrau paratoi cynlluniau tymor canolig, o leiaf, yn unol â'r gofyniad y mae'r Ddeddf wedi'i gyflwyno. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon ynghylch gorddibyniaeth ar gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn, sef mater a godwyd eisoes gennym fel Pwyllgor. Roedd yn ddiddorol clywed am brofiad Mr Brace tra oedd gydag Aneurin Bevan, yn enwedig pan ddywedodd i'r profiad gadarnhau bod angen cynllunio ar gyfer y tymor canolig. Byddem yn annog y Byrddau Iechyd hynny sy'n gweithredu o fewn y Ddeddf i rannu arfer gorau gyda'r byrddau hynny nad ydynt wedi llwyddo i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.



Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd yn yr Academi Gyllid, sydd i'w weld yn fodel da, ac rydym yn bwriadu dilyn ei hynt wrth iddo ddatblygu model ar gyfer rhannu arfer gorau. Yn ogystal â sicrhau bod y rhai sy'n gweithio i'r GIG yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol, rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod pawb yn atebol ee bod aelodau'r Bwrdd yn ddeall digon ar gyllid y GIG i fonitro staff a'u dwyn i gyfrif yn effeithiol.

Fel Pwyllgor, rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru bellach yn defnyddio fframwaith uwchgyfeirio i nodi eu disgwyliadau ac i gynorthwyo'r sefydliadau hynny nad ydynt yn eu cyflawni. Rydym yn credu ei bod yn bwysig iawn dangos y diffygion yn glir ar fantolenni er mwyn ei gwneud yn haws deall sefyllfa ariannol pob Bwrdd Iechyd. O hyn ymlaen, bydd y Pwyllgor yn disgwyl gweld newidiadau er gwell yn y cyfnod adrodd nesaf. Yn benodol, rydym yn disgwyl y bydd y sefyllfa yn Hywel Dda wedi gwella'n sylweddol ar ôl gweithredu'r adroddiad ar gyllidebu ar sail sero a oedd ar fin cael ei gyhoeddi pan gawsom dystiolaeth gennyh ym mis Gorffennaf.

Yn gywir



**Nick Ramsay AC**  
Cadeirydd

Cc: Dr Dai Lloyd AC, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

